# Cefnogi contractwyr i’w galluogi i gyflawni amcanion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cefnogi contractwyr i'w galluogi i gyflawni eu hamcanion.

Byddai disgwyl i chi fonitro'r systemau a gwerthuso cynnydd y gwaith, gan ddefnyddio'r wybodaeth yma i gefnogi'r contractwyr i gyflawni eu hamcanion.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gyfrifol am reoli contractwyr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae eu contract yn gofyn iddynt ei gyflawni o ran amcanion, graddfeydd amser, adnoddau
2.
sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'u hymrwymiadau o ran deddfwriaeth berthnasol, codau ymarfer a gweithdrefnau sefydliadol
3. rhoi'r wybodaeth a'r cyfleusterau angenrehdiol i gontractwyr, ar yr adegau iawn, i'w galluogi i gyflawni'r canlyniadau gofynnol
4. rhoi'r wybodaeth ddiogelwch briodol i gontractwyr am y safle perthnasol a lleoliad peryglon posibl
5. cynnal perthynas effeithiol gyda chontractwyr i gefnogi gwaith y sefydliad a'u galluogi i fodloni eu hamcanion
6. monitro gwaith contractwyr ar adegau addas i bennu cynnydd tuag at amcanion
7. cynnig adborth priodol i gontractwyr ar eu gwaith ac annog arfer da a chynnyddu ysgogiad
8. nodi a chofnodi gwyriadau o'r rhaglen a chymryd y camau priodol
9.
ailddiffinio canlyniadau contract lle mae monitro yn nodi bod hyn yn angenrheidiol
10.
cyfathrebu amrywiadau i'r contractwr yn gywir a heb oedi
11. datrys unrhyw anghydfodau yn brydlon ac yn unol ag amodau'r contract

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gwaith y mae'r contractwr o dan gontract i'w gyflawni a'r amcanion y mae disgwyl iddynt eu cyflawni
2.
pwy sydd yn cyflenwi beth o ran adnoddau, contractwr neu sefydliad
3. y ddeddfwriaeth berthnasol, codau ymarfer a gweithdrefnau sefydliadol sydd yn berthnasol
4. y wybodaeth y bydd ei hangen ar gontractwyr i'w galluogi i weithio'n effeithiol a phwysigrwydd cyfrinachedd
5. y cymorth ychwanegol a'r cyfleusterau y gall contractwyr fod eu hangen sy'n berthnasol i gyd-destun eich diwydiant
6. eich rôl yn cefnogi contractwyr a phwysigrwydd sefydlu a chynnal perthynas waith dda
7. dulliau o fonitro cyflawni'r gwaith contract
8. sut i roi adborth adeiladol i gontractwyr a pherthynas hyn â chyflawni canlyniadau ac ysgogi contractwyr
9. effaith ffactorau allanol ar gyflawni contractau, fel y tywydd, yr amser o'r flwyddyn, cyfnodau cynhyrchu ac ati
10. y problemau posibl allai ddigwydd a'r camau priodol i'w cymryd
11. sut i ymdrin yn effeithiol ag unrhyw gŵynion gan y rheiny a allai gael eu heffeithio gan waith contractwyr
12. sut i ailddiffinio canlyniadau contract a phwy ddylai fod yn gysylltiedig â hyn
13. dangosyddion amrywiadau o'r contract a'r camau y dylech eu cymryd
14. y math o anghydfodau a allai godi mewn perthynas ag ansawdd y gwaith, y cymorth a ddarperir, amserlennu a thaliadau, a sut dylid ymdrin â'r rhain
15. pwysigrwydd atebolrwydd, bod yn agored ac uniondeb wrth reoli gwaith contract

Cefnogi contractwyr i'w galluogi i gyflawni amcanion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Awst 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Awst 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCU97 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ystadau, Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Crofftwyr a Thyddynwyr, Dyframaethu, Rheoli Pysgodfeydd, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | contractwyr; monitro; cefnogaeth |